



HEALTH & SAFETY
IECHYD A DIOGELWCH

Polisi Iechyd a Diogelwch: Datganiad o Fwriad

HSA-10100-01

Cynnwys

Rheoli'r Ddogfen	3
Cofnod Diwygio	3
1. Rhagair gan yr Is-ganghellor.....	4
2. Cwmpas y Polisi.....	4
3. Datganiad o Fwriad	5

Rheoli'r Ddogfen

Enw'r Ddogfen	Polisi Iechyd a Diogelwch: Rhan 1 – Datganiad o Fwriad
Rhif Cyfeirnod y Ddogfen	HSA-10100-01
Diwygiad	2.4
Dyddiad Cyhoeddi	Mawrth 2021
Lluniwyd gan	Louise Nowell
Diwygiwyd gan	
Cymeradwywyd gan	
Adolygwyd gan	Y Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol
Cyswllt e-bost	healthandsafety@abertawe.ac.uk

Cofnod Diwygio

Diwygiad	Dyddiad	Diwygiad/Diwygiadau
0		Drafft
1.0	05/03/18	Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch blaenorol
1.1	24/07/18	Fe'i diwygiwyd yn dilyn cyngor cyfreithiol allanol (Blake Morgan).
2.0	Hydref 2018	Polisi Iechyd a Diogelwch wedi'i ailddrafftio a'i ailstrwythuro'n llwyr Cafodd y polisi ei drafod a'i wrthod gan yr Uwch-dîm Rheoli. Awgrymwyd diwygiadau
2.1	Gorffennaf 2019	Ailddrafftwyd strwythur y Polisi Iechyd a Diogelwch yn llwyr mewn tair rhan. Rhan 1: Datganiad o Fwriad y Polisi Iechyd a Diogelwch Rhan 2: Dogfen Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd Sefydliadol (ar gyfer ymgynghoriad)
2.2	Ionawr 2021	Cyflwynwyd y fersiwn ddrafft derfynol i'w chymeradwyo gan yr Uwch-dîm Rheoli, ochr yn ochr â Rhan 2, dogfen sefydliadol y polisi
2.3	Mawrth 2021	Cyflwynwyd y fersiwn derfynol i'w llofnodi gan y Cyngor.
2.4	Gorffennaf 2022	Diweddarwyd i adlewyrchu'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Gwynwch a'r Trefniadau Llywodraethu

1. Rhagair gan yr Is-ganghellor

Mae Cyngor Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i sicrhau na chaiff gweithgareddau busnes y Brifysgol eu cyflawni mewn modd sy'n achosi afiechyd neu anaf i aelodau staff, myfyrwyr, ymwelwyr, contractwyr neu unrhyw un y gall y gweithgareddau hynny effeithio arno, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae rheoli iechyd a diogelwch yn rhan annatod o reoli busnes yn gyffredinol ac mae'n ystyriaeth allweddol ym mhob agwedd ar gynllunio busnes a rheoli perfformiad.

Rydym yn ymrwymedig i wella ein perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddarparu adnoddau priodol, arweinyddiaeth weladwy ac effeithiol a datblygu, gweithredu ac adolygu ein Polisi Iechyd a Diogelwch a System Rheoli Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

2. Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn a'r trefniadau cysylltiedig yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr, contractwyr, tenantiaid, partneriaid, ymwelwyr ac unrhyw arall y gall gweithgarwch y Brifysgol effeithio arno ar bob campws ac eiddo arall y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt, yn eu defnyddio neu'n eu rheoli, a'r holl weithgarwch sy'n berthnasol i weithrediad y Brifysgol, gan gynnwys teithio yn y DU a thramor.

Mae'r polisi'n diffinio ymrwymiad y Brifysgol i iechyd a diogelwch ac yn amlinellu sut caiff yr ymrwymiad ei gyflawni, gan gynnwys darparu adnoddau, cymhwysedd ac amrywiaeth eang o weithdrefnau a chyfarwyddyd sy'n pennu'r safonau ar gyfer rheoli risgiau sy'n cael eu creu gan Brifysgol Abertawe fel rhan o'i gweithgarwch.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn cynnwys tair rhan yn unol â'r gofynion deddfwriaethol fel y'u nodir isod (sylwer bod Rhannau 2 a 3 yn ddogfennau ar y cyd â'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch. Mae Rhan 2 hefyd yn cynnwys Cynaliadwyedd):

1. Datganiad o Fwriad y Polisi Iechyd a Diogelwch (HSA-10100-01)
2. Iechyd, Diogelwch, Gwytnwch a Chynaliadwyedd – Dogfen Sefydliadol (HSA-10100-02)
 - Rolau a chyfrifoldebau cyflogaion, rheolwyr llinell a rhanddeiliaid dynodedig eraill yn y Brifysgol.
 - Strwythurau Llywodraethu a Phwyllgorau (HSA-10100-02a).
 - Trefniadau Llywodraethu: Partneriaethau, Tenantiaid, Cydweithrediadau, Is-gyrff a Chwmnïau Deillio'r Brifysgol (HSA-10100-02b).
 - Trefniadau Llywodraethu: Ymgynghori ar y Polisi a'r Ddogfennaeth Gysylltiedig, eu Rhoi ar Waith a'u Hadolygu (HSA-10100-02c).

- Trefniadau Llywodraethu: Cymhwysedd, Goruchwyliaeth a Hyfforddiant (HSA-10100-02d).
3. Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch – Dogfen Trefniadau (HSA-10100-03)
- Mae holl drefniadau, gweithdrefnau a chyfarwyddyd y Polisi Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch wedi'u hysgrifennu yn unol â safonau arfer gorau, gan gydymffurfio â deddfwriaeth fel gofyniad lleiaf a darparu Datganiad o Fwriad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol fel y'i nodir yn y ddogfen hon.

3. Datganiad o Fwriad

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ymagwedd at reoli risg sy'n seiliedig ar arfer gorau a gwelliant parhaus.

Mae'n canolbwyntio ar reoli risgiau'n rhagweithiol a meithrin diwylliant iechyd a diogelwch rhagweithiol a chadarnhaol yn barhaus drwy ddatblygu system reoli gadarn.

Mae hwyluso amgylchedd gweithio, ymchwil ac addysgu ysgogol a chyffrous sy'n ymgorffori rheoli risgiau i iechyd a diogelwch mewn arfer busnes da'n flaenoriaeth allweddol.


Bydd egwyddorion sylfaenol rheoli risgiau i iechyd a diogelwch wrth wraidd ein busnes er mwyn hwyluso arloesi a dysgu, sicrhau bod staff, myfyrwyr ac eraill sy'n cymryd rhan yng nghymuned ein prifysgol yn ddiogel ac yn iach o ran y peryglon y maent yn eu hwynebu fel rhan o weithgarwch y Brifysgol a sicrhau bod y rhai sy'n creu risgiau'n eu deall ac yn eu rheoli'n gyfrifol drwy adnoddau a chymorth digonol yn ôl yr angen.

Yn benodol, bydd Prifysgol Abertawe, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yn:

- Rhoi digon o adnoddau i reoli risgiau i iechyd a diogelwch a rhoi'r polisi hwn a threfniadau dilynol ar waith, drwy ddarparu digon o staff, cefnogaeth, cymorth arbenigol, cyngor cymwys, amser a chyllid.
- Cynnal a chadw unrhyw le y mae'r Brifysgol yn ei reoli mewn cyflwr sy'n ddiogel ac nad yw'n peri risgiau i iechyd, a:
 - Darparu a chynnal mynedfeydd ac allanfeydd i'r fath leoedd sy'n ddiogel ac nad ydynt yn peri risgiau.
 - Sicrhau bod cyfleusterau a threfniadau priodol yn cael eu darparu ar gyfer lles.
- Darparu a chynnal cyfarpar a systemau gwaith sy'n ddiogel ac nad ydynt yn peri risgiau i iechyd.
- Nodi peryglon sylweddol a all ddeillio o weithgarwch y Brifysgol, asesu'r risgiau, a rhoi mesurau rheoli priodol ac effeithiol ar waith i liniaru a rheoli'r risg ar lefel mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Rhoi systemau gweithio diogel ar waith sy'n dileu, yn lliniaru ac yn rheoli risgiau i iechyd a diogelwch.
- Gwneud trefniadau i sicrhau diogelwch a sicrhau nad oes risgiau i iechyd mewn cysylltiad â defnyddio, trafod, storio a chludo eitemau a sylweddau.

- Darparu cyfarpar diogelu personol ar gyfer staff, myfyrwyr ac eraill yn ôl yr angen.
- Cefnogi a hyrwyddo lles yn weithredol yn unol â strategaeth iechyd a lles y Brifysgol.
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn ôl yr angen i sicrhau iechyd a diogelwch cyflogeion, myfyrwyr ac eraill.
- Sicrhau bodd modd cyfathrebu ac ymgynghori'n effeithiol â chynrychiolwyr cyflogeion ynghylch materion iechyd a diogelwch.
- Monitro effeithiolrwydd darpariaethau iechyd a diogelwch drwy drefn archwilio ac arolygu gadarn, gan bennu targedau ac amcanion bob blwyddyn a mesur cynnydd.
- Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch hwn a holl drefniadau, gweithdrefnau a chyfarwyddyd cysylltiedig y polisi'n rheolaidd er mwyn sicrhau arfer gorau a chydymffurfiaeth â'r gyfraith.

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu ar ran y Brifysgol gan:



Llofnod (Cadeirydd y Cyngor):

Dyddiad: 27/03/2023

Llofnod (yr Is-ganghellor):



Dyddiad: 27/03/2023

Dyddiad adolygu: (Ddwy flynedd ar ôl iddo gael ei lofnodi neu os oes newid sylweddol)